Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Trallwn

**Glanywern Road**
**Trallwn**
**SA7 9UJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Trallwn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Trallwn |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 245 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 188 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 35 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 21.3%) | 45.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 22.2%) | 43.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 6.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ebrill 2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/11/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/05/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Trallwn yn gymuned ysgol groesawgar a gofalgar. Cefnogi lles disgyblion sydd wrth wraidd pob agwedd ar waith yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal. Mae athrawon a staff cymorth yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn. Mae gan yr ysgol amrywiaeth o wobrau, sy'n annog disgyblion i ddilyn rheolau'r ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i'r ddarpariaeth hon, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda iawn mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Ceir darpariaeth gref i gynorthwyo'r nifer fawr o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn cynnwys cymorth hynod fedrus a theilwredig ar gyfer disgyblion sy'n mynychu dau gyfleuster addysgu arbenigol (CAA) yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd yn briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, ar y cyfan, sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu llawer o fedrau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae diffygion yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer addysgu darllen ac ar gyfer hyrwyddo a datblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau arwain allweddol trwy ddod yn aelodau o'r grwpiau amrywiol cynrychiolaeth disgyblion. Mae aelodaeth y grwpiau hyn yn hynod gynhwysol, ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn cyfrannu at wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr eraill yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol ar gyfer yr ysgol. Mae arweinwyr yn ymgymryd ag ystod briodol o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol. Mae'r canfyddiadau hyn yn llywio eu prosesau cynllunio gwelliant. Fodd bynnag, nid ydynt yn llunio barnau rheolaidd ar effaith yr addysgu ar safonau disgyblion. Mae ystod eang o gyfleoedd i staff ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol buddiol.

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu darllen, yn enwedig i ddisgyblion hŷn

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a hyrwyddo'r Gymraeg

A3 Miniogi gweithgareddau hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith y ddarpariaeth ar wella safonau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau mewn llythrennedd, datblygiad mathemategol a datblygiad corfforol islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o leiaf o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r cyfleusterau addysgu arbenigol, yn gwneud cynnydd cryf.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda. Maent yn gwella eu geirfa lafar yn gyflym ac yn siarad â hyder cynyddol ag oedolion ac â'i gilydd. Mae disgyblion iau yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn eu hailadrodd wrth eu ffrindiau ac oedolion. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn glir at ystod o ddibenion, gan gynnwys rhoi esboniadau clir a chyflwyniadau bywiog.

O oedran cynnar, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o ffoneg sy'n eu helpu i ddechrau darllen. Trwy ymagwedd systematig yr ysgol at addysgu ffoneg, mae mwyafrif y disgyblion iau yn gwella eu gwybodaeth am seiniau yn gyflym ac yn dechrau darllen testunau a storïau syml yn gywir. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar lefel sydd o leiaf yn unol â'u hoedran. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth fanwl o wahanol destunau, ac ni allant ddefnyddio medrau fel rhesymu a dod i gasgliad yn hyderus.

Mae disgyblion iau yn dysgu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol ac yn dechrau gafael mewn pensil yn addas. Mae'r mwyafrif yn dechrau defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir ac yn sillafu geiriau cyffredin yn gredadwy. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig a gyda dychymyg, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am fôr-leidr. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn gwella eu medrau ysgrifennu'n briodol. Maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion ac yn deall sut i ysgrifennu gwahanol genres, fel storïau, adolygiadau llyfrau a llythyrau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu llythyrau emosiynol o'r ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf wrth brofi cadoediad y Nadolig. At ei gilydd, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda yn estynedig ac mae eu defnydd o eirfa ddychmygus yn gyfyngedig. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod o atalnodi yn dda i ddarnodi eu gwaith.

O'r adeg pan fyddant yn dechrau'r ysgol, mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol. Yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrif yn llwyddiannus i 10 a thu hwnt ac yn ysgrifennu brawddegau rhif syml gan ddefnyddio adio yn gywir. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth addas o werthoedd rhif ac yn cymhwyso ystod o strategaethau i ddatrys problemau yn effeithiol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn penderfynu pa unedau mesur sydd eu hangen i bwyso gwahanol wrthrychau yn gywir. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio eu gwybodaeth am arian i ddeall cyfriflen banc a

sut i gyfrifo balansau agoriadol a balansau cloi. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn caffael medrau effeithiol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae disgyblion iau yn datblygu medrau yn gyflym ac yn eu cymhwyso'n dda i gefnogi eu dysgu. Mae disgyblion hŷn yn cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Defnyddiant feddalwedd cyhoeddi yn hyderus, er enghraifft i gyfuno lluniau a thestun i greu cymhorthion gwrando diddorol ar gyfer disgyblion iau. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn dda i gefnogi eu dysgu ym meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 4 a 5 yn defnyddio TGCh yn hyderus i ymchwilio i ffeithiau ar gyfer eu testun ar y gofod.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o eiriau ac ymadroddion Cymraeg. Mae disgyblion iau yn mwynhau canu caneuon Cymraeg ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau gan eu hathrawon. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg i ymateb i gwestiynau syml. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yr hyder i sgwrsio yn Gymraeg, ac nid ydynt yn datblygu eu medrau llafar yn ddigon da.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn defnyddio sialciau i dynnu llun deinosoriaid yn yr ardal awyr agored, gan ddefnyddio medrau echddygol manwl priodol. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio barrau seinio yn gywir i greu darn syml o gerddoriaeth i gyd-fynd â'u geiriau am bengwin. Mae disgyblion hŷn yn creu lluniau dychmygus yn arddull gwahanol arlunwyr o Gymru.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn barod ac awyddus i ddysgu bob dydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a moesgar. Maent yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, ac wrth symud o gwmpas yr adeilad a chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mynd ati i gynorthwyo eu cyfoedion yn ystod y diwrnod ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu pryderon, ac yn gwybod bod yna oedolion y gallant droi atynt os oes angen cymorth arnynt. Maent yn ymateb yn dda i weithdrefnau'r ysgol i annog ymddygiad cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall rheolau'r ysgol ac yn croesawu'r system wobrau sy'n cydnabod eu cyflawniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â diet a ffordd o fyw. Maent yn gwybod am bwysigrwydd bwyta'n iach ac aros yn heini ac yn iach trwy wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Yn ystod amseroedd chwarae, mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau corfforol. Mae disgyblion sy'n mynychu ystod o glybiau ar ôl yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, gan gynnwys mewn gymnasteg, dawns, pêl-droed a phêl-rwyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys pan fyddant ar-lein, ac yn mwynhau rhannu'r wybodaeth hon â'u rhieni.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio’n hyderus â’u cyfoedion ac oedolion ac yn dod yn gynyddol annibynnol. Mae disgyblion iau yn canolbwyntio am gyfnodau amser priodol wrth ymgymryd â heriau, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau nes iddynt eu cwblhau. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithredu’n frwdfrydig wrth weithio mewn parau a grwpiau bach, ac yn parchu barnau pobl eraill. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth a’u medrau i ddatrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dylunio a mireinio cynlluniau ar gyfer ceir ac yn profi sut mae eu siâp yn dylanwadu ar eu cyflymder.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall materion yn ymwneud â thegwch a chydraddoldeb, er enghraifft trwy eu hymchwil fel rhan o’u testun dosbarth. Mae gan ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd masnach deg. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth gadarn am hawliau’r plentyn.

Mae gan lawer o ddisgyblion o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol, gan gynnwys y cyfleuster addysgu arbenigol hŷn, rolau arwain. Mae grwpiau cynrychioliadol yn cynnwys cyngor ysgol, grŵp arweinyddiaeth disgyblion, a’r grŵp gwrthfwlio, sef ‘swarm’. Mae disgyblion yn cymryd eu rolau o ddifrif a thrwy’r gwaith hwn yn datblygu medrau arwain allweddol. Mae pob grŵp yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd a gwerthoedd yr ysgol, ac mae disgyblion a ddewiswyd yn cynrychioli eu cyfoedion yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion o grŵp ‘swarm’ wedi chwarae rôl arweiniol mewn lleihau bwlio yn yr ysgol. Trefnodd y grŵp arweinyddiaeth disgyblion ymgyrch ddiweddar 'Manners Matter' i herio unrhyw ymddygiad gwael gan oedolion a disgyblion tra byddant ar safle’r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn ymgymryd â phrofiadau a syniadau anghyfarwydd yn dda. Mae hyn yn rhannol oherwydd y berthynas ymddiriedus rhwng disgyblion a staff.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae staff yn cydweithio’n dda i sicrhau eu bod yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac ysgogol, ar y cyfan, ar gyfer disgyblion. Mae staff yn y dosbarthiadau CAA yn ystyried anghenion dysgu ac anghenion personol disgyblion yn llwyddiannus wrth gynllunio eu cwricwlwm, gwersi a gweithgareddau teilwredig. Mae’r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ymweld ag amrywiaeth o leoedd ysgogol o ddiddordeb i ymestyn eu dysgu. Er enghraifft, yn ddiweddar, ymwelodd disgyblion hŷn â Glannau Abertawe i edrych ar y bensaernïaeth, twf a newidiadau yn yr ardal leol. Mewn dosbarthiadau iau, mae staff wedi datblygu ardaloedd dan do ac awyr agored atyniadol i alluogi disgyblion i ymgymryd â gweithgareddau ysgogol ac annibynnol, yn aml. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio ar gyfer defnyddio’r ystafell ddosbarth yn yr awyr agored yn ddigon da.

Mae staff wedi bod yn gweithio’n agos gydag ysgolion eraill i helpu cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Maent wedi defnyddio’r wybodaeth hon a medrau i

ymgysylltu'n llwyddiannus â dyluniad y cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i Ysgol Trallwn a'i chymuned. Mae staff wedi arbrofi â gwahanol ymagweddau at ddylunio'r cwricwlwm. Maent wedi archwilio a mireinio eu cynlluniau yn llwyddiannus i adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, i sicrhau bod ganddynt gynlluniau i ddarparu profiadau dysgu go iawn ar gyfer disgyblion i ehangu eu gorwelion fel dinesydd cyfrifol Cymru a'r byd.

At ei gilydd, ar draws yr ysgol, mae staff yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wella eu medrau llythrennedd. Mae ffocws ysgol gyfan ar wella medrau llafaredd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu darllen i ddisgyblion hŷn yn eu cynorthwyo i wella'u medrau yn ddigon da. Ceir anghysondeb o ran pa mor aml y mae staff yn addysgu darllen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu mathemateg yn briodol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n raddol i alluogi disgyblion i adeiladu'n llwyddiannus ar eu medrau rhif a'u gwybodaeth. Ceir cyfleoedd annigonol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau ystyrlon ac ar lefel addas ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysgu medrau TGCh yn dda. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio TGCh yn hyderus i gefnogi eu dysgu.

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad medrau Cymraeg disgyblion. Ceir trosolwg eang addas o sut dylai staff addysgu geirfa a phatrymau iaith yn raddol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn glynu at y cynlluniau hyn yn ddigon da. O ganlyniad, nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg yn briodol. Yn ychwanegol, nid yw staff yn hyrwyddo nac yn annog dwyieithrwydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn gyson dda.

Ym mhob dosbarth, mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt berthnasoedd cryf a chadarnhaol iawn gyda nhw. Maent yn darparu amgylcheddau ystafell ddosbarth diogel a chefnogol ar gyfer disgyblion y gallant ddysgu a ffynnu ynddynt. Yn ystod gwersi, mae athrawon yn defnyddio dull effeithiol a chyson wrth ddelio ag ymddygiad disgyblion, ac mae disgyblion yn ymateb yn dda i hyn. Yn y ddau gyfleuster addysgu arbenigol yn benodol, mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau i ymgysylltu â disgyblion yn llwyddiannus a diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio adnoddau'n dda i ymestyn eu haddysgu a dal dychymyg disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir i sicrhau bod disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r hyn mae angen iddynt ei wneud i lwyddo mewn gwers. Defnyddiant eu llais yn dda i ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion yn eu dysgu. Yn y cyfleusterau addysgu arbenigol, mae staff yn defnyddio cyfathrebu dieiriau yn fedrus i ddiwallu anghenion disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n briodol i ddiwallu anghenion eu disgyblion ac adeiladu ar ddysgu blaenorol. Maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol a dewis sut i gyflwyno'u gwaith. Fodd bynnag, ar adegau, mae lleiafrif o athrawon yn rhoi gormod o sgaffaldau i ddisgyblion, ac mae hyn yn rhwystro eu gallu i osod eu gwaith yn annibynnol neu ysgrifennu'n estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod eang o gwestiynau effeithiol i helpu asesu dealltwriaeth disgyblion ac ymestyn eu dysgu ymhellach. Maent yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion trwy gydol gwersi sy'n eu helpu i wella eu gwaith, yn gyffredinol. Mae ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon yn fwy amrywiol. Pan fydd yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut gallant wella'u gwaith, ac yn gofyn cwestiynau perthnasol i helpu ymestyn eu meddwl ymhellach.

Mae grŵp mawr o gynorthwywyr addysgu tra hyfforddedig a brwdfrydig yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion yn unigol ac mewn grwpiau, yn y dosbarth a thrwy raglenni cymorth targedig, fel ei gilydd. Mae'r dull hwn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd cryf.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn amgylchedd diogel ac anogol. Mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o ofal a pharch i'w gilydd, sydd yn ei dro yn cynorthwyo i greu cymuned ddysgu hynod gynhwysol lle caiff pawb eu gwerthfawrogi.

Mae darpariaeth yr ysgol i gefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn rhoi sylw manwl i deimladau disgyblion ac yn cynllunio cymorth os oes ganddynt bryderon. Er enghraifft, yn ystod y pandemig diweddar pan gaewyd yr ysgol, darparodd staff lefel eithriadol o uchel o gymorth, gan gynnwys cysylltu â'r disgyblion yn rheolaidd i asesu eu lles. Ymatebodd staff yn brydlon i nodi ac ymateb i unrhyw bryderon am ddisgyblion neu'u teuluoedd.

Mae'r ysgol yn meithrin cysylltiadau hynod fuddiol gyda rhieni a'r gymuned, gan gynnwys amrywiaeth o gymorth i deuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio rhieni at asiantaethau a sefydliadau eraill. Yn ychwanegol, mae grŵp chwarae wythnosol a gynhelir gan gynorthwyydd addysgu ar gyfer plant cyn-ysgol a'u rhieni i helpu cefnogi eu cyfnod pontio i ddosbarth meithrin yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryf. Ceir systemau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion disgyblion penodol yn drylwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cytuno ar gynlluniau addysg unigol sydd, yn gyffredinol, yn nodi targedau priodol ar gyfer disgyblion ac sydd â chamau hylaw i helpu disgyblion i'w cyflawni. Mae'r ysgol yn rhannu'r cynlluniau yn llwyddiannus gyda disgyblion a rhieni ac yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Pan fydd angen, mae'r ysgol yn cysylltu ag asiantaethau arbenigol allanol i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn helpu athrawon a staff cymorth i deilwra darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion targedig trwy oruchwylio ystod eang o raglenni cymorth. Ceir trefniadau trylwyr i gynorthwyo disgyblion ag ADY yn y cyfleusterau addysgu arbenigol. Mae pob un o'r staff yn y CAAau yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn eithriadol o dda. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hyn i ymgysylltu yn yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas i fynd i'r afael â gofynion y Ddeddf ADY newydd.

Mae gan yr ysgol gyfan ffocws cryf ar bwysigrwydd hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau dynol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion werthfawrogiad da o

gydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder, a'r modd y mae'r rhain yn cysylltu â'u bywydau o ddydd i ddydd. Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddeall buddion ffordd iach o fyw. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion fod yn gorfforol egnïol amser chwarae. Yn ychwanegol, ceir ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am bwysigrwydd ymddwyn fel dinasyddion gweithgar a derbyn cyfrifoldebau'n synhwyrol. Mae staff yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain a chymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae staff ac arweinwyr yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau grwpiau disgyblion ac yn cynorthwyo disgyblion â'u dealltwriaeth o hawliau plant. Mae gan ddisgyblion rôl bwysig mewn dylanwadu ar eu dysgu eu hunain, a gofynnir iddynt yn rheolaidd feddwl am agweddau ar destunau yr hoffent ymchwilio iddynt ymhellach.

Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ac yn cynorthwyo disgyblion i archwilio materion yn gysylltiedig â goddefgarwch a pharch am bobl eraill. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio testunau crefyddol a moesol yn dda i roi cyfle i ddisgyblion fyfyrio ar negeseuon pwysig. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn astudio bywyd a gwaith Betty Campbell. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gefnogi elusennau, er enghraifft codi arian ar gyfer UNICEF ar Ddiwrnod Plant y Byd yn ddiweddar.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn i fonitro presenoldeb disgyblion. Mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda'r gwasanaeth lles addysg i helpu gwella presenoldeb gwael. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn ac nid ydynt yn destun pryder. Caiff pob un o'r staff hyfforddiant diogelu rheolaidd ac maent yn ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio ag unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Mae arweinwyr yn cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau eraill i adrodd am bryderon a rhoi cymorth ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd pan fydd angen. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Mae safle'r ysgol yn amgylchedd diogel a saff.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr eraill yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol i'r ysgol. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod mynd i'r afael â lles disgyblion, a'i gefnogi, yn sail i bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn modelu gwerthoedd proffesiynol yn dda ac yn annog ethos gwaith tîm cryf lle mae pawb yn gwerthfawrogi cyfraniadau pobl eraill.

Ceir cyfathrebu effeithiol o fewn yr ysgol a gyda rhieni. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i wahanol grwpiau o staff rannu gwybodaeth ac ystyried agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd ar gyfer arweinwyr ac ar gyfer athrawon, a fforwm rheolaidd ar gyfer staff cymorth. Mae ystod eang o staff yn cyfrannu at y cyfarfodydd hyn, er enghraifft i rannu eu harbenigedd ar bwnc penodol.

Mae gan yr ysgol gyfan ffocws priodol ar fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel ei gilydd, er enghraifft paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi gwneud llai o gynnydd ar hyrwyddo'r defnydd o'r

Gymraeg. Mae arweinwyr yn defnyddio rheoli perfformiad yn effeithiol i helpu canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella'r ysgol gyfan a chyfrifoldebau aelodau unigol o staff a'u meysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau ariannol yn briodol i gefnogi eu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn dda i ddarparu ystod eang o gymorth ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae arweinwyr yn olrhain y cynnydd a wna disgyblion yn ofalus i sicrhau eu bod yn defnyddio cyllid yn fuddiol i gefnogi lles a dysgu disgyblion.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i arweinwyr yr ysgol. Maent yn cydnabod yr anawsterau a wynebodd yr ysgol a'i chymuned yn ystod y pandemig diweddar. Mae arweinwyr yn darparu ystod addas o wybodaeth i lywodraethwyr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion a digwyddiadau'r ysgol. Fodd bynnag, mae llywodraethwyr yn ddibynnol iawn ar y wybodaeth hon i'w helpu i farnu perfformiad yr ysgol, ac nid ydynt yn casglu tystiolaeth uniongyrchol ar eu cyfer eu hunain yn systematig. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o weithgareddau i'w helpu i werthuso gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys teithiau dysgu ac arolygon ar gyfer amrywiaeth o bartneriaid perthnasol. Defnyddiant eu canfyddiadau'n dda i nodi cryfderau a meysydd y mae angen iddynt eu gwella. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r barnau a wna arweinwyr ar safonau'r ddarpariaeth a chydymffurfiad staff â pholisïau cytûn. Ychydig iawn o ffocws a geir ar farnu effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae prosesau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar lawer o feysydd y mae angen i'r ysgol eu gwella. Mae'n cyd-fynd yn dda â chanfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso ac ar fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae arweinwyr yn gwerthuso'u cynnydd tuag at eu targedau yn rheolaidd, ac yn amlygu meysydd sydd angen eu gwella.

Mae arweinwyr yn darparu ystod o gyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer dysgu proffesiynol i bob aelod o staff. Maent yn targedu cyllid yn effeithiol i sicrhau bod staff yn cael ystod eang o gyfleoedd i fynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol gyfan ac unigol ar gyfer gwella. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi manteisio ar gyllid gan yr awdurdod lleol i hyfforddi pob aelod o staff mewn ymagwedd ysgol gyfan newydd at gefnogi lles disgyblion. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i staff weld arfer dda o'r tu mewn i'r ysgol trwy ymweld â dosbarthiadau eraill. Trwy'r gwaith hwn, mae arweinwyr yn rhoi cyfle i staff rannu eu meysydd arbenigedd penodol â'i gilydd. Caiff staff gyfle i ymgymryd ag ymchwil weithredu. Mae aelodau unigol o staff yn rhannu eu canfyddiadau'n rheolaidd i helpu gwella agweddau ar waith yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  27/07/2022